



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL

Lles yn Ein Cymuned

Adroddiad Perfformiad Blynyddol

2019 - 2020




Cynnwys

AMCANION LLESIANT CRYNODEB GWEITHREDOL.....	3
CYFLWYNIAD	7
DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 - CRYNODEB	8
Y Saith Nod Llesiant	8
Datblygu Cynaliadwy	8
Y Pum Ffordd o Weithio	9
RHEOLEIDDWYR ALLANOL	10
GWYBODAETH ARIANNOL.....	11
MESUR A DIFFINIO LLWYDDIANT.....	12
CRYNODEB PERFFORMIAD	13
EIN PERFFORMIAD - DATA MEINTIOL.....	14
Dechrau Gorau	14
Bywyd Gwaith.....	18
Llesiant Amgylcheddol.....	21
Byw yn Dda.....	24
ASTUDIAETHAU ACHOS - DATA ANSODDOL	29
Crynodeb - Astudiaethau Achos	46
CYSYLLTWCH Â NI	48
ATODIAD 1: Allwedd Perfformiad.....	49

AMCANION LLESIANT CRYNODEB GWEITHREDOL

Yr hydref diwethaf adolygwyd ail flwyddyn ymateb y Cyngor i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fe gofiwch i'r Cyngor, er mwyn ymateb i'r Ddeddf, gymeradwyo'i **Ddatganiad Llesiant** cyntaf ym mis Mawrth 2017, ynghyd â'i Gynllun Llesiant Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 i 2022 - **Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned** ym mis Ebrill 2017. Yn y ddogfen hon, sefydlwyd y rhesymeg dros ein hamcanion llesiant arfaethedig a'r camau i'w cyflawni. Yn dilyn hyn, mae'r ddogfen wedi'i chryfhau ynghyd â newidiadau i'n trefniadau gweithio er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'n well.

Mae'r **Datganiad Llesiant** a'r Cynllun Llesiant Corfforaethol - **Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned** ar gyfer 2017 i 2022 yn dynodi'r camau nesaf yn y daith i ymgorffori datblygu cynaliadwy ar draws y Cyngor. Mae'r dogfennau hyn yn nodi ein cynlluniau sy'n ceisio sicrhau gwelliannau ar draws pedair colofn llesiant, sef: economaidd; cymdeithasol; diwylliannol; amgylcheddol.

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd y thema drawsbynciol 'Trechu Tlodi' i'n Cynllun Llesiant Corfforaethol. Mae hwn yn fater  gwirioneddol i Ferthyr Tudful a theimlir bod angen ei gynnwys yn y gwaith a wnawn. Rydym yn defnyddio'r logo gyferbyn i dynnu sylw at ble rydym yn gwneud gwaith i fynd i'r afael â hyn ac i'n hatgoffa o'r pwysigrwydd.





Gan ddysgu o flynyddoedd blaenorol, rydym wedi canolbwyntio mwy ar ddarparu ein gwasanaethau drwy'r [pum ffordd o weithio](#) a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig sut rydym yn integreiddio ein strategaethau. Rydym hefyd wedi blaenoriaethu ein canlyniadau i'n helpu i ddeall ein llwyddiant yn well a sut y gallwn barhau i wella.

Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio llawer mwy ar yr hyn sydd angen ei wneud wrth gyflawni ein hamcanion ar gyfer ein trigolion. Er mwyn sicrhau bod ein cynllunio llesiant yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion pobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, bydd ein Datganiad Llesiant blynyddol yn asesu a yw ein hamcanion yn briodol, ac yn nodi ffyrdd o wneud y gorau o'n cyfraniad at gyflawni'r [saith nod llesiant cenedlaethol](#).



Ellis Cooper
Prif Weithredwr Dros Dro

Ein pedwar amcan llesiant

Thema Llesiant	Amcan
 Dechrau Gorau	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.
 Llesiant Amgylcheddol	Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.
 Byw yn Dda	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.



DG

Y DECHRAU GORAU I FYWYD

Anfoddhaol

Gwnaed newidiadau sylweddol i fesurau perfformiad CA4 rhwng adrodd yn 2018 a 2019. Cyflwynwyd mesurau perfformiad newydd sy'n defnyddio sgoriau pwyntiau cyfartalog ar gyfer mesurau perfformiad interim Llythrennedd, Rhifedd, Gwyddoniaeth, Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019, roedd deilliannau'n **Anfoddhaol**. Daethpwyd i'r dyfarniad hwn oherwydd y cyrhaeddiad cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Roedd yr unig ddata a ddilyswyd yn allanol, yn anfoddhaol. Mae gwella cyfraddau absenoldebau parhaus yn parhau i fod yn ffocws i'r awdurdod, a hefyd lleihau cyfraddau gwahardd ar draws ein holl ysgolion.

BG

BYWYD GWAITH

Digonol

Dros gyfnod 2019/20, mae'r sefyllfa gadarnhaol mewn perthynas â demograffeg busnes Merthyr Tudful wedi'i chynnal. Bu cynnydd yng nghanran y bobl o oedran gweithio sydd ag NVQ lefel 2 neu uwch, sy'n galluogi unigolion i ddangos lefelau sgiliau gwell wrth wneud cais am swyddi. Fodd bynnag, mae llawer o ddangosyddion economaidd allweddol yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Felly, rydym wedi barnu ein perfformiad fel **Digonol**: mae ein cryfderau'n drech na'n gwendidau, ond erys rhai agweddau pwysig y mae angen eu gwella.

LIA

LLESIANT AMGYLCHEDDOL

Digonol

Mae lleihau faint o wastraff yr ydym yn ei gynhyrchu a'i ailgylchu gymaint ag sy'n bosibl yn dod â manteision economaidd ac amgylcheddol. Yn ystod cyfnod 2019/20 barnwyd bod canlyniadau **Digonol** ym Merthyr Tudful. Er bod swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu, ei aildefnyddio a'i gompostio gan breswylwyr wedi cynyddu bron 3.4% yn 2019/20 (gan ganiatáu i ni ragori ar dargedau uwch Llywodraeth Cymru) mae angen i ni wella'n barhaus o flwyddyn i flwyddyn er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru i ailgylchu 70% o'r holl wastraff erbyn 2025 a 'dim gwastraff' erbyn 2050. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn parhau i annog ein holl breswylwyr i atal gwastraff lle bynnag y bo modd ac ailgylchu popeth y gellir ei ailgylchu. Bydd ymgyrchoedd lleol fel 'Cadw lan 'da'r Jonesiaid' yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni hyn.

Yn ystod 2019/20, mae staff y Gwasanaethau Plant wedi parhau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful o dan ddyletswyddau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Yn y Gwasanaethau Oedolion, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi pobl i fyw bywydau bodlon yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain ac rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a chynghorau cyfagos. Er gwaethaf gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, yr ydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl hynny yr aseswyd eu bod fwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddarparu gwasanaethau o fewn y cyllid sydd ar gael, mae'r niferoedd cynyddol o blant a phobl hŷn, y mae angen i ni eu hamddiffyn, wedi golygu bod hyn yn parhau i fod yn hynod heriol. Mae hyn wedi golygu pwysau ar y gyllideb yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Tua diwedd mis Chwefror 2020, heriwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fel pob sefydliad arall ledled Cymru a'r DU, gydag effaith ddinistriol lledaeniad pandemig y Coronafeirws. Yn ystod y cyfnod hwn, buom yn gweithio gyda'n partneriaid statudol a'n partneriaid a gomisiynwyd i gefnogi pobl i aros gartref gyda'r cymorth yr oedd ei angen arnynt, a rhoi cymorth i'r sector cartrefi gofal gan sicrhau ein bod yn amddiffyn preswylwyr agored i niwed gymaint ag y gallem. Buom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr iechyd i gynllunio'r camau angenrheidiol i sicrhau bod y GIG yn gallu ymateb i'r pwysau cynyddol a ragwelir sy'n deillio o'r pandemig.

Gan ystyried yr uchod, rydym felly wedi barnu ein perfformiad fel **Digonol**.



Dyfarniad Cyffredinol

Digonol

Yn seiliedig ar y dyfarniadau a nodwyd yn y pedair thema llesiant uchod, ein barn gyffredinol ar gyfer 2019/20 yw **DIGONOL**.

CYFLWYNIAD

Diben yr adroddiad hwn yw darparu'r sefyllfa o ran perfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n ymwneud â 2019/20. Trwy wneud hyn rydym wedi cryfhau'r ffordd rydym yn gwerthuso ein perfformiad. Mae gennym gylchdro hunanarfarnu sy'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynir ein canfyddiadau a'n barnau i'n Pwyllgorau Craffu (sy'n cynnwys Aelodau Etholedig yn ogystal ag Aelodau eraill) lle cânt eu herio. Mae hyn wedi digwydd ar gyfer y dyfarniadau yn yr adroddiad hwn.

Gan fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â 2019/20, mae'n cynnwys gwybodaeth a data cyn pandemig y Coronafeirws a'r gwaith a wnaed yn 2020 o ddatblygu ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yn erbyn ein hamcanion llesiant. Yn y dyfodol, caiff hyn ei ehangu i gyfeirio at sut rydym yn gwella a sut mae gwasanaethau cymorth yn gwneud hyn. Mae'r adrannau isod yn crynhoi manylion defnyddiol i ategu prif gorff yr adroddiad hwn.

Adroddiadau Perfformiad Blynyddol

Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol yn ofyniad statudol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (dogfen y mae'n ofynnol i ni ei chyhoeddi yn unol â'n rheoliadau). Rydym yn cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol i gyfleu ein hunanarfarnu yn erbyn cyflawni ein hamcanion llesiant. Bwriad y ddogfen hon yw darparu asesiad cyffredinol o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r flwyddyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Er mwyn gwneud hyn byddwn yn canolbwyntio ar ddata meintiol ac ansoddol (daw hyn o'n dangosyddion perfformiad a'n hastudiaethau achos). Byddwn yn ystyried canfyddiadau ein proses hunanarfarnu (sydd newydd ei diweddarau ar gyfer 2019) ynghyd ag adborth gan ein rheoleiddwyr.

Cynllun Llesiant Corfforaethol - Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned

Mae ein dogfen Ffocws ar y Dyfodol yn nodi amcanion llesiant y Cyngor (2017 i 2022). Mae'r cynllun yn cynrychioli cyfraniad y Cyngor at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol ac yn nodi ein prif flaenoriaethau dros y pum mlynedd. Mae cael set glir o flaenoriaethau corfforaethol yn sicrhau bod gan ein Cynghorwyr fframwaith cadarn i lywio eu penderfyniadau a monitro ein cynllun i sicrhau ei fod yn llwyddo.

Rheoleiddwyr Allanol

Mae rheoleiddwyr allanol yn craffu ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol i gyflawni canlyniadau i'n cymunedau. Ceir crynodeb o'r adroddiadau archwilio ac arolygu diweddaraf a gyhoeddwyd yn yr Adran ['Rheoleiddwyr Allanol'](#).

Bwrdd Gwella a Sicrwydd


Ar ôl pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020, cymerwyd cam rhagweithiol gennym a gofyn i Lywodraeth Cymru ein cefnogi yn y cyfnod heriol hwn. Penododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Fwrdd Gwella a Sicrwydd i gynnal ymarfer asesu cyflym. Bydd y ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn yn rhan o'n gwaith cynllunio a chyflawni ac yn cael ei adrodd yn ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020/21.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 - CRYNODEB

Y Saith Nod Llesiant

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf yn y gyfraith, mae cyrff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un diben. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant cenedlaethol ar waith sy'n cynrychioli'r weledigaeth gyffredin ar gyfer Cymru ac yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus rhestredig weithio i gyflawni'r holl nodau ac nid un neu ddau'n unig. Rhestrir y saith nod cenedlaethol hyn yn ffigur 1.

Ffigur 1 – Saith Nod Llesiant i Gymru.



Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefniadol ganolog wrth osod amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn cadarnhau mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei chymhwyso wrth wneud penderfyniadau a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.

“rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.”

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Sophie Howe

Yn y Ddeddf, caiff datblygu cynaliadwy ei ddangos gan y pum ffordd o weithio.

Y Pum Ffordd o Weithio

Mae pum ffordd o weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu er mwyn dangos tystiolaeth o sut y maent wedi defnyddio datblygu cynaliadwy fel eu prif egwyddor drefniadol. Mae dilyn y ffordd hyn o weithio yn cynnig cyfle enfawr i wneud newid cadarnhaol a pharhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



Tymor Hir

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.



Atal

Sut gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu gyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.



Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion gyrff cyhoeddus eraill.



Cydweithredu

Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i fodloni ei amcanion lles.



Ymglymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

RHEOLEIDDWYR ALLANOL

Fel pob Cyngor yng Nghymru, mae rheoleiddwyr allanol yn craffu ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau. Mae gan Archwilio Cymru (a elwid gynt yn Swyddfa Archwilio Cymru) raglen flynyddol o waith archwilio ac asesu y mae'n ymgymryd â hi o fewn y Cyngor. Mae rheoleiddwyr eraill yn ymgymryd â gwaith sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol. Mae casgliadau'r holl waith hwn yn cael eu dwyn ynghyd mewn Adroddiad Gwella Blynyddol. Y prif reoleiddwyr eraill yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru gynt)

Bob blwyddyn, mae Archwilio Cymru yn adrodd ar ba mor dda y mae pob Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu gwasanaethau. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf ar gyfer Merthyr Tudful yn ymgorffori'r Asesiad Corfforaethol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2019. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, yn ystod 2018/19, **nad oedd y Cyngor yn debygol o fodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus heb gefnogaeth i fynd i'r afael â rhai heriau sylweddol**. Mae'r canlyniadau hyn yn cael sylw ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod 2020/21 ac fel rhan o waith cynllunio gwelliant y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol nifer o argymhellion. Daeth y rhain o arolygiadau archwilio cenedlaethol. I grynhoi, maent yn cynnwys:

- Gwastraff ac Ailgylchu
- Cymunedau Gwledig
- Aeddfedrwydd llywodraeth leol wrth ddefnyddio data
- Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru
- Y 'drws ffrynt' i Ofal Cymdeithasol i Oedolion

Gallwch ymweld â gwefan Archwilio Cymru <https://archwilio.cymru/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau> i weld yr adroddiadau diweddaraf ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

I chwilio am yr adroddiadau diweddaraf, ewch i <https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu>

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae AGC yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru. Mae hyn yn cynnwys adolygu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion y Cyngor.

Ar gyfer yr adroddiadau adolygu ac arolygu diweddaraf ar effeithiolrwydd ein gwasanaethau, ewch i'r adran 'Ein Hadroddiadau' o <https://arolygiaethgofal.cymru/>

Cyllideb Refeniw

Mae'r Cyngor yn pennu cyllideb refeniw bob blwyddyn. Mae'r gyllideb refeniw hon yn talu costau'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, ac mae defnyddwyr gwasanaethau, Grantiau Llywodraeth Cymru, talwyr y Dreth Gyngor a'r Dreth Fusnes yn talu amdanynt. Ar gyfer 2019-2020, cyllideb refeniw'r Cyngor oedd **£120,293 miliwn**.

Yn 2010-11, er mwyn bodloni'r rhagolwg o setliad y gyllideb is, fel rhan o doriadau gwariant Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r ddyled genedlaethol, dechreuasom ar y broses o nodi lle y gallem wneud arbedion ariannol.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Diwygiwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 2019-2020 i ystyried gostyngiadau yn yr arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Gosododd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn cyflawni'r arbedion a nodwyd yn y Setliad.

Cafodd yr alldro refeniw dros dro ar gyfer 2019-2020 ei adrodd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2020. Gellir darllen yr adroddiad a gyhoeddwyd drwy ddilyn y ddolen [Adroddiad y Cabinet](#).

Tabl 1: Yr alldro refeniw dros dro ar gyfer 2019/2020 fesul prif faes gwasanaeth

Alldro Refeniw	£'000
Gwasanaethau Cymdeithasol	32,483
Gwasanaethau Cymdogaeth	10,767
<i>Holl Wasanaethau eraill y Cyngor (gan gynnwys Costau Corfforaethol Canolog)</i>	<i>20,591</i>
<i>Tanwariant Refeniw</i>	<i>2,891</i>
Cyfanswm	120,293

MESUR A DIFFINIO LLWYDDIANT

Wrth ystyried ein perfformiad, mae angen i ni ystyried ein gweledigaeth gyffredin a'n [hamcanion llesiant](#).

Mae ein gweledigaeth gyffredin yn nodi:

Cryfhau safle Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle y gellir ymfalchïo ynddo, a ble hefyd;

- Gall pobl dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau
- Gall pobl byw, gweithio, a chael bywyd diogel, iach a bodlon
 - Gall pobl ymweld, mwynhau a dychwelyd iddo

Mesur Llesiant

Rydym yn defnyddio dau fath o ddata yn y ddogfen hon: Mae'r adran gyntaf yn defnyddio data meintiol i fesur llwyddiant pob thema llesiant; mae'r ail adran yn defnyddio tystiolaeth ansoddol i ddangos effaith o safbwynt aelodau'r gymuned. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall ein perfformiad a'r buddion o weithio mewn gwahanol ffyrdd yn well.

- Data meintiol (dangosyddion poblogaeth, a dangosyddion perfformiad lleol)
- Data ansoddol (astudiaethau achos a llais cymunedol)

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar ein perfformiad yn ystod 2019-2020 ac yn cydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni pethau'r un mor bwysig â'r hyn a gyflawnir gennym. Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl a'r cyfraniad mwyaf posibl i'r saith nod llesiant cenedlaethol, mae angen i ni wneud pethau gwahanol a chanolbwyntio ar ganlyniadau i ddiffinio llwyddiant.

Diffinio Llwyddiant

Er mwyn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein preswylwyr, rydym wedi blaenoriaethu ein canlyniadau.

DG

Dechrau Gorau

Gwella'r canlyniadau addysgol i bob plentyn a pherson ifanc

BG

Bywyd Gwaith

Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

LIA

Llesiant Amgylcheddol

Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy gyfrwng yr hierarchaeth

BDd

Byw yn Dda

Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed

CRYNODEB PERFFORMIAD

Y sefyllfa gyffredinol ar gyfer cyflawni'r amcanion llesiant yn y Cynllun Llesiant Corfforaethol yw **Digonol**. Mae hyn yn golygu: 'rhai cryfderau lle mae ein safle cymharol ar lefel ganolrif is, gyda rhai cyfraddau gwella a/neu dystiolaeth o ryw effaith gadarnhaol ar newid i ddeilliannau'.

O'r pedwar amcan llesiant: barnwyd bod 1 yn anfoddhaol a barnwyd bod 3 yn ddigonol.

Crynodeb o Berfformiad

DG	Amcan Llesiant - Dechrau Gorau	Dyfarniad	BG	Amcan Llesiant - Bywyd Gwaith	Dyfarniad
Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.		Anfoddhaol	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion busnesau, gyda seilwaith diogel sy'n datblygu sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.		Digonol
LIA	Amcan Llesiant - Llesiant Amgylcheddol	Dyfarniad	BDd	Amcan Llesiant - Byw yn Dda	Dyfarniad
Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad		Digonol	Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.		Digonol



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Lisa
Mytton

Amcan

Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Prif Swyddog: Dysgu

Sue Walker

Ffocws Strategol

Codi Safonau

Cefndir

Mae codi safonau cyrhaeddiad yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae cysylltiad cryf rhwng lles a chyrhaeddiad. Mae disgyblion sydd â gwell iechyd a lles yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni'n well yn academaidd.

Rydym yn cydnabod bod y blynyddoedd cynnar yn hanfodol i botensial plentyn ar gyfer dysgu a'i gyfleoedd mewn bywyd yn y dyfodol, fel y mae cefnogaeth y teulu. Rydym am i bob plentyn gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu potensial academaidd a chyfrannu fel preswylwyr cyfrifol i'w datblygiad eu hunain a datblygiad y gymuned ehangach.


Mewn ysgolion, ein blaenoriaethau yw ysgogi gwelliant mewn safonau llythrennedd a rhifedd, drwy wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth, a lleihau effaith amddifadedd economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol.

Dangosyddion Perfformiad

[Allwedd Perfformiad](#)

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	2018	2019	Tuedd
% y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Deilliant y Cyfnod Sylfaen	89.1	*	
% y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni Deilliant 1 ym mhob un o'r 4 maes o fewn Cytundeb y Cyfnod Sylfaen wrth ymadael ag oedran lleoliadau gofal plant	52.0	47.0	↓
% y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2	90.2	*	
% y presenoldeb cyffredinol (sesiynau hanner diwrnod) disgyblion yn yr ysgol gynradd	94.3	93.9	↓
% y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 1	95.0	*	
% y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 (Cymraeg/Saesneg a Mathemateg)	42.0	*	
% y disgyblion cymwys i brydau ysgol am ddim sy'n cyflawni trothwy L2 (Cymraeg/Saesneg a Mathemateg)	29.4	*	
% y presenoldeb cyffredinol (sesiynau hanner diwrnod) disgyblion yn yr ysgol uwchradd	93.0	91.8%	↓
% y disgyblion sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni'r L2 cynhwysol (Cymraeg/Saesneg a Mathemateg)	12.5	*	

* Oherwydd newidiadau yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ni ellir cyhoeddi'r data hwn mwyach



Rhesymeg

Mae sefyllfa flynyddol y canlyniadau (Awst 2019) yn anfoddfaol. Daethpwyd i'r dyfarniad hwn oherwydd y cyrhaeddiad cyffredinol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Roedd yr unig ddata a ddilyswyd yn allanol, yn anfoddfaol.

Mae perfformiad disgyblion cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn yr awdurdod lleol yn gadarnhaol o'i gymharu â pherfformiad disgyblion cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn genedlaethol, gyda'r awdurdod lleol yn rhagori ar y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pwyntiau cyfartalog gwyddoniaeth a llythrennedd. Fodd bynnag:

- Mae'r sgôr pwyntiau llythrennedd cyfartalog ar gyfer yr awdurdod lleol 4.3 pwynt yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r sgôr pwyntiau rhifedd cyfartalog ar gyfer yr awdurdod lleol 4.7 pwynt yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r bwlch ym mherfformiad y sgôr pwyntiau gwyddoniaeth cyfartalog rhwng awdurdodau lleol a Chymru ychydig yn llai na'r bwlch a welwyd ar gyfer llythrennedd a rhifedd ond mae'n dal i fod dros 4 pwynt (4.1 pwynt).
- Mae perfformiad awdurdodau lleol ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru bron yn radd gyfan (5.6 pwynt) islaw'r ffigwr cenedlaethol.
- Mae perfformiad bechgyn yn yr awdurdod lleol yn llawer gwannach na pherfformiad merched, pan gaiff y ddau grŵp eu cymharu â'r cyfartaleddau cenedlaethol. Ar gyfer pob un o'r mesurau interim newydd, mae perfformiad merched tua hanner gradd yn is na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn tua un radd gyfan ar gyfer pob mesur, ac eithrio Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru sydd bron 1.25 gradd yn is na'r hyn a welwyd yn genedlaethol
- Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn ehangach i'r awdurdod lleol nag a welir yn genedlaethol ar gyfer pob un o'r pum mesur perfformiad dros dro. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, hanner gradd islaw'r hyn a welir yn genedlaethol ar gyfer pob un o'r pum mesur perfformiad interim
- Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn gulach i'r awdurdod lleol nag a welwyd yn genedlaethol ar gyfer pob un o'r pum mesur perfformiad newydd.

Uchelgais yr awdurdod lleol yw bod yn nes at gyfartaleddau Cymru, neu'n uwch na'r cyfartaleddau hynny, ym mhob mesur perfformiad erbyn 2022 ac ar neu uwchlaw'r deilliannau a fodelwyd yn 2021.

Mae'r angen i wella presenoldeb hefyd yn parhau i fod yn faes i'w wella ymhellach.

- Y presenoldeb ar draws ysgolion cynradd yw 93.92%, o'i gymharu â 94.03% yn 2017/18; gostyngiad o 0.11%
- Y presenoldeb ar draws ysgolion uwchradd yw 92.8% o'i gymharu â 92.49% yn 2017/18; cynnydd o 0.41%
- Ar ddiwedd 2018/19 cafodd Merthyr Tudful ei sgorio ar y cyd â Rhondda Cynon Taf yr 22ain o ran presenoldeb uwchradd ac roedd yn 0.1% i ffwrdd o sgôr Flaenau Gwent; mae'r gwahaniaeth o hyd yn dynn. Cyfartaledd Cymru yw 93.8%. Mae'r bwlch rhwng Merthyr Tudful a Chyfartaledd Cymru wedi parhau i gau ers 2016/17 a'n cyfradd wella yw'r trydydd gorau yng Nghymru.

Dechrau Gorau – Barn

Mae ein gwerthusiad yn nodi bod y thema llesiant hon ar lefel:

Anfoddhaol



Aelod Portffolio
Y Cynghorydd Geraint
Thomas

Amcan

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion busnesau, gyda datblygiad; seilwaith diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol

Prif Swyddog: Adfywio Cymunedol

Alyn Owen

Ffocws Strategol

Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

Cefndir

Mae thema Bywyd Gwaith yn y Cynllun Corfforaethol wedi arwain at gyfleoedd i ddatblygu dull mwy cynhwysol er mwyn cryfhau'r gwaith ehangach sy'n cefnogi gwella sgiliau a'r amgylchedd a seilwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.


Roedd gwaith a wnaed yn ystod 2019-2020 yn ceisio integreiddio ymhellach yr ystod eang o weithgareddau a gynhaliwyd a oedd yn canolbwyntio'n strategol ar y seilwaith economaidd ac ehangach, a'i nod oedd gwella'r sefyllfa economaidd ym Merthyr Tudful. Bydd comisiynu Cynllun Adfer Economaidd newydd yn gyfle i ddeall y grymoedd newid yr ydym yn disgwyl eu gweld yn dilyn y cyfnod adfer ac wrth ddod allan o'r pandemig presennol. Un o ganlyniadau'r gwaith hwn fydd penderfynu sut y gall Merthyr Tudful ddefnyddio'i asedau a'i gyfleoedd i'w leoli ei hun yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod adfer o'r pandemig a thu hwnt.

Wrth edrych ar ymateb y Cyngor mewn perthynas â'r farchnad lafur a sgiliau, gwnaethom barhau i sefydlu diwylliant cydweithredol i fynd i'r afael â diweithdra a chynnig rhaglenni ac ymyriadau mwy cydgysylltiedig i gefnogi oedolion a phobl ifanc (16 oed a throsodd) i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, hunangyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddoli.

Dangosyddion Perfformiad

[Allwedd Perfformiad](#)

Dangosyddion Perfformiad Allweddol	2018/2019	2019/2020	Tuedd
% y boblogaeth o oedran gweithio mewn cyflogaeth (Blwyddyn yn gorffen Mawrth 2018)	72.2	68.9	↓
% y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau NVQ lefel 2 ac uwch	57.4	59.9	↑
% y boblogaeth heb unrhyw gymhwyster	14.1	16.0	↑
% y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant	1.3	2.1	↑
Nifer y genedigaethau busnes	220	170	↓
Nifer y marwolaethau busnes	190	160	↓
% y rhai a gymerodd ran mewn cyflogaeth ar ôl gadael y rhaglenni a ariennir gan yr UE	23	34	↑
% y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar ôl cwblhau rhaglen hyfforddi 'tu allan o'r gwaith'	22	25	↑
% y cyfranogwyr sy'n ennill cymhwyster ar ôl cwblhau rhaglen hyfforddi 'o fewn y gwaith'	87	74	↓



Rhesymeg

Mae lefelau cymwysterau Merthyr Tudful yn dangos bod lefelau gwell wedi cael eu sicrhau yn ystod 2019/2020. Bu gostyngiad yn y gyfradd gyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol y cyfnod hwn; gyda data yn dangos bod y gyfradd ym Merthyr Tudful yn 68.9% (4.8% yn is na chyfartaledd Cymru). Mae'r cyflog wythnosol gros canolrifol i weithwyr llawn amser ym Merthyr Tudful wedi codi 13% i £503.80 yn 2019-20 (gan godi o £440.60 yn 2018-19). Mae'r gwelliannau a nodwyd yn dangos ymrwymiad y Cyngor i helpu cymunedau i fynd i'r afael â thlodi a gwella eu lles ariannol.

Yn ystod 2019-20, mae materion cenedlaethol yn ymwneud â RhDDC a llwytho data cofrestru colegau addysg bellach ar borthol Gyrfaoedd Cymru wedi arwain at effaith sylweddol ar adnabod yn amserol ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a dyrannu cefnogaeth briodol. Dengys y data fod 2.1% o bobl ifanc wedi'u cofnodi fel heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ar gyfer Merthyr Tudful; fodd bynnag, mae Merthyr Tudful yn ond un o dri chyngor ar hyn o bryd ledled Cymru nad oes ganddynt unrhyw bobl ifanc â chyrchfan 'anhysbys' yn 2019, sy'n dangos bod ei brosesau olrhain a monitro'n gadarn.

Bywyd Gwaith - Barn

Mae ein gwerthusiad yn nodi bod y thema llesiant hon ar lefel:

Digonol



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd David Hughes

Amcan

Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad

Prif Swyddog: Gwasanaethau Cymdogaeth

Judith Jones

Ffocws Strategol

Gwastraff

Cefndir


Mae amgylchedd a chefn gwlad naturiol iach yn cynnig manteision lluosog i bobl ac mae gan fywyd gwyllt o ansawdd aer, dŵr a thir gwell, diogelwch cynefinoedd a bioamrywiaeth well, canlyniadau buddiol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol. Felly, ffocws yr amcan lles hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Yr Amcan Llesiant Amgylcheddol yw:

- Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad

Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol o ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w gweld ar draws ein holl amcanion llesiant.

Y flaenoriaeth yw gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth genedlaethol o Gymru'n dod yn wlad Ddiwastraff erbyn 2050 a chymryd camau i sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion llesiant ym Merthyr Tudful.

	0.72		
	96.6	96.5	
	185.2	178.5	
			▲
			▼
Nifer y Mannau Agored â Blaenoriaeth (allan o 23 o Fannau Agored â Blaenoriaeth) sy'n bodloni neu'n rhagori ar y safon ansawdd: Yn Iach, yn Saff ac yn Ddiogel.	8	9	▲



¹ Darparwyd data lleol - ni chaiff y data hwn ei ddilysu gan y Llif Data Gwastraff tan tua mis Hydref 2020

² Mae ffigur 2019/20 yn cynnwys data o nifer o adeiladau'r sector cyhoeddus. Nid oedd yn bosibl nodi'r allyriadau carbon deuocsid o'r wybodaeth am ynni a ddefnyddir gan dim ond gan adeiladau Cyngor Merthyr Tudful ar gyfer y ffigur cyffredinol hwn.

Rhesymeg

Mae ansawdd yr amgylchedd lleol yn bwysig i iechyd a llesiant pobl. Ar gyfer 2019/20 ystyrir mai'r canlyniad ar gyfer yr Amcan Llesiant Amgylcheddol yw **Digonol**. Ceir rhai enghreifftiau o ganlyniadau da i'r gymuned yn y Gwasanaethau Gwastraff, Glanhau Strydoedd, Tipio Anghyfreithlon, ac Adran y Parciau. Fodd bynnag, ar y cyfan, oherwydd y gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn mewn adnoddau a chyllidebau ar gyfer y gwasanaethau rheng flaen, ystyrir bod y canlyniadau i'r gymuned yn ddigonol gan fod y gwasanaethau a ddarperir yn gyfyngedig ac yn aml yn adweithiol yn hytrach nag yn ataliol oherwydd adnoddau cyfyngedig.

Cafwyd tystiolaeth o welliant parhaus ac er gwaethaf yr adnoddau cyfyngedig, mae staff yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o wella'u gwasanaethau ac maent yn ymwybodol o'r angen am gynnydd. Mae hyn yn ffocws penodol ar Wastraff, lle mae'r targedau ailgylchu uchelgeisiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am weithredu mentrau newydd a ffyrdd newydd o weithio'n barhaus er mwyn cyrraedd eu targedau. Mae gan y gwasanaeth Rheoli Gwastraff gontractau cadarn ar waith i fwyhau i'r eithaf ailgylchu, compostio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio; mae'r rhain yn cynnwys contractau rhanbarthol ar gyfer deunyddiau penodol sy'n sicrhau gwerth am arian. Yn ogystal â hyn, mae cael ein gorsaf trosglwyddo Gwastraff ein hunain yn ein galluogi i drin deunydd a chynnal y pris marchnad gorau posibl ar gyfer ein hailgylchu. Yn ystod 2019/20, cynyddodd swm y gwastraff a ailgylchwyd, ailddefnyddiwyd ac ail-gompostiwyd gan breswylwyr gan 3.39%, a arweiniodd at Ferthyr Tudful yn cyflawni 64.98%. Mae hyn yn cyrraedd targed cynyddol Llywodraeth Cymru o 64% ar gyfer 2019/20.

Yn sgil cyflwyno'r mesur tipio anghyfreithlon newydd yn 2018/19, roedd Merthyr Tudful yn ail yng Nghymru, gan gymryd 0.72 diwrnod ar gyfartaledd i glirio'r holl dipio anghyfreithlon a gofnodwyd. Dros y cyfnod 2019/20 ym Merthyr Tudful, mae nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd, o gymharu â'r amser a gymerwyd, i glirio tipio anghyfreithlon, wedi cynyddu i 2.12 diwrnod. Roedd hwn yn benderfyniad strategol a wnaed er mwyn defnyddio adnoddau'n well o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth yn y cyfnod llymder hwn.

O ystyried y gostyngiadau pellach yn y Gwasanaeth Glanhau Strydoedd, roedd lefel glendid ein priffyrdd yn 2019-20 i raddau helaeth wedi aros yr un fath â 2018/19. At hynny, rydym yn parhau i weithio tuag at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau carbon drwy ddatblygu ein Rhaglen Ail-ffitio gydag astudiaethau dichonoldeb wedi'u cynnal yn ystod 2021/20.

Llesiant Amgylcheddol - Barn

Mae ein gwerthusiad yn nodi bod y thema llesiant hon ar lefel:

Digonol



Aelod Portffolio
Y Cyngorydd Chris Davies

Amcan

Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ac iechyd meddwl da.

Prif Swyddog: Gwasanaethau Cymdeithasol

Lisa Curtis-Jones

Ffocws Strategol

Gwella Llesiant

Cefndir

Ein prif amcan yw blaenoriaethu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal. Y flaenoriaeth yw darparu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol iach mewn amgylchedd diogel. Rydym am gymell a chefnogi pobl i ddatblygu ymddygiadau corfforol ac iechyd meddwl cadarnhaol, adeiladu cymunedau gwydn lle mae pobl yn byw heb niwed ac ag ansawdd bywyd da. O dan yr 'Amcan Byw yn Dda' ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 oedd:

- Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed;
- Mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a datblygu cydnorthedd cymunedol;
- Hyrwyddo ymddygiadau iechyd a lefelau uwch o weithgarwch corfforol;
- Hyrwyddo lles emosiynol da a gwell iechyd meddwl;
- Darparu gwybodaeth a chynghor clir a hygyrch; a
- Gwasanaethau sy'n rhoi'r gallu i bobl fyw yn eu cartref eu hunain.

Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, sy'n faes yr oeddem am wella arno a pharhau i adeiladu arno yn y dyfodol. Rydym am helpu pobl i sicrhau lefel uwch o les; eu helpu i'w helpu eu hunain, i wneud dewisiadau gwell a chael mynediad at wahanol fathau o gymorth.

Dangosyddion Perfformiad

[Allwedd Perfformiad](#)


Dangosyddion Perfformiad Allweddol ³	2018/2019	2019/2020	Tueddiadau
% ailgofrestru plant ar gofrestrau diogelu plant awdurdodau lleol	6.7	6.0	↓
% yr ymholiadau diogelu oedolion sy'n cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod	83.1	75.7	↓
% y bobl a gafodd y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt ⁴	69.3	-	
% y boblogaeth o oedolion sy'n gallu byw'n annibynnol ⁵	96.2	-	
% yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	46.3	47.1	↑
% y bobl sy'n cael cymorth trais domestig arbenigol, sy'n adrodd am welliant o ran eu hansawdd bywyd	88.0	89.0	↑
% y plant a gynorthwyir i barhau i fyw o fewn eu teulu	72.5	69.8	↓
% y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol, nad oeddent o ganlyniad i drefniadau trosiannol	10.9	4.9	↓
Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth ⁵	7,276	-	
Sgôr lles goddrychol cyfranogwyr sy'n ymwneud â phrosiectau Heini Merthyr Tudful (Dechrau / Gorffen) ⁶	Cychwyn: 3.52 Gorffen: 3.79	-	

³ Nid oes unrhyw wybodaeth gymaradwy ag awdurdodau lleol eraill Cymru ar gyfer y mesurau gofal cymdeithasol, gan nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chyhoeddi hyd yma.

⁴ Nid oedd yn ofynnol casglu'r data hwn ar gyfer 2019/20 oherwydd cyflwyno'r Cod Ymarfer newydd mewn perthynas â pherfformiad a gwelliannau Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru.

⁵ Oherwydd y Coronafeirws, ni chafodd unrhyw ffurflenni eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20. Felly nid yw'r data hwn ar gael.

⁶ Yn seiliedig ar Raddfa Lles Meddyliol Warwick Caeredin (0-5) lle mae 0 yn isel ei les a 5 yn lles uchel. Cestglir y data hwn ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ariannol; fodd bynnag, oherwydd y pandemig nid oedd y broses hon wedi ei chwblhau erbyn Mawrth 2020.



Rhesymeg

Ym Merthyr Tudful y dyfarniad blynyddol ar gyfer canlyniadau yw **Digonol**.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bellach wedi'u hymgorffori ac ar waith. Roedd y ddau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gryfhau'r trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad. Roedd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithio'n agosach gyda'n partneriaid drwy gydweithio. Parhawyd i wneud cynnydd rhagorol o ran gweithio mewn partneriaeth yn 2019/20.

Yn ystod 2019/20, mae'r galw o fewn y gwasanaeth wedi cynyddu gyda phwysau amlwg yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant oherwydd galw mawr am becynnau gofal i bobl sy'n gadael yr ysbyty ac sydd angen cymorth i fyw yn y gymuned, a gyda chynnydd yn nifer ein plant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, cafodd 80 mwy o bobl wasanaeth ailalluogi yn 2019/20 nag yn 2018/19. Bu cynnydd hefyd yn ein plant sy'n derbyn gofal o 198 ar 31.03.2019 i 206 ar 31.03.2020. Mae hyn wedi rhoi pwysau enfawr arnom o ran cyllidebau. Yn ogystal â hyn, mae casglu data perfformiad o gronfa ddata System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn dal i fod yn her, er ei fod yn gwella bob blwyddyn. Mae'r pandemig hefyd wedi achosi problemau o ran argaeledd rhywfaint o ddata. Fodd bynnag, diogelu Oedolion a Phlant fydd ein blaenoriaeth bob amser.

Mae Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn allweddol i gynnal gwasanaethau yn y tymor hwy. Mae'r Ganolfan Cymorth Cynnar ar waith, ac mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu'r maes gwaith hwn yn barhaus, er mwyn sicrhau bod y plant hynny a'u teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn i atal yr angen rhag gwaethygu'n ddiangen. Mae gwerthuso'r Ganolfan wedi cynnwys adborth gan deuluoedd, sydd wedi bod yn gadarnhaol gyda nifer yr asesiadau sy'n arwain at fanteisio ar wasanaethau ataliol yn uwch na'r disgwyl. Mae'r asesiadau a gynhaliwyd gan y Ganolfan Cymorth Cynnar wedi caniatáu cyfeirio mwy effeithiol a mwy o ddefnydd o wasanaethau ataliol yn ein cymuned.

Rydym yn parhau i gefnogi oedolion yn eu cartrefi eu hunain ac yn ymateb yn brydlon i bryderon diogelu plant ac oedolion. Mae hyn yn erbyn cefndir o bwysau ariannol parhaus, gan fod y galw'n cynyddu yn y gwasanaeth ond y cyllid yn lleihau. Fe'n cefnogwyd gan grantiau'n cael eu talu, er enghraifft pwysau'r gaeaf, gofal cartref/darpariaeth seibiant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, a'n cynorthwyodd.

Yn gyffredinol, rydym wedi cyflawni, a byddwn yn ymdrechu i barhau â'r gwaith da hwn wrth symud ymlaen yn 2020/21. Yn amlwg fel rhan o'n gwaith gwella, bydd angen i ni ganolbwyntio ar adferiad o COVID-19. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i ni adolygu rhai gwasanaethau ac efallai y bydd angen i ni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion pobl yn y gymuned.

Byw'n Dda - Barn

Mae ein gwerthusiad yn nodi bod y thema llesiant hon ar lefel:

Digonol

Yn ystod 2019/20 rydym wedi **gwella mewn 32% o'n dangosyddion** (11 o 34) o gymharu â 2018/19.



Rydym wedi **gostwng mewn 38% o'n dangosyddion** (13 o 34) yn 2019/20 o gymharu â 2018/19, fodd bynnag, newidiadau bach yw rhai o'r rhain.

Nid oedd yr un o'n dangosyddion wedi aros yn union yr un fath.

Nid ydym wedi gallu adrodd ar 30% o'n dangosyddion (10 o 34) oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru (Addysg) ac argaeledd data oherwydd oedi a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws. Rhagwelir y bydd y sefyllfa hon yn gwella yn y misoedd i ddod er mwyn caniatáu i fwy o ddata gael ei adrodd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Felly, mae Cyngor Merthyr Tudful wedi gwella mewn 46% o'r dangosyddion (11 o'r 24) sydd ar gael ar gyfer 2019/20 ac wedi gostwng mewn 54% o'r dangosyddion (13 o'r 24) sydd ar gael ar gyfer 2019/20, o'u cymharu â 2018/19.

Yn seiliedig ar y dyfarniadau a nodwyd yn y pedair thema llesiant uchod, ein barn gyffredinol ar gyfer 2019/20 yw ein bod ar lefel **DIGONOL**.



Camau a gymerwyd i gyflawni'r 7 nod llesiant

Fel corff cyhoeddus, rhaid i'r Cyngor gymryd pob cam angenrheidiol i ddangos ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Yn ystod 2019/20 bu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sy'n cefnogi gwelliannau o ran llesiant ein cymunedau. Mae'r ffordd yr ydym yn dangos effaith y gwaith hwn yn gofyn am ddulliau cymysg.

Gall **data ansoddol** ddarparu dadansoddiad cyfoethog o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chefnogi llesiant ac mae'n rhoi dealltwriaeth ddyfnach o'r cyd-destun y mae ein gwasanaethau'n bodoli ynddo. Y ffordd rydym yn gwneud hyn yw amlinellu'r ffordd rydym yn cefnogi'r gwelliannau hyn gan ddefnyddio astudiaethau achos.

Yn ystod 2019/20 rydym wedi datblygu astudiaethau achos sy'n gysylltiedig â phob un o'r pedair thema llesiant yn ein Cynllun Llesiant Corfforaethol. Rydym wedi ychwanegu ychydig o enghreifftiau ychwanegol o sut rydym yn gwneud pethau gwahanol – mae'r rhain yn cysylltu â'n llywodraethu a'n ffyrdd o weithio.

Sut yr ydym wedi nodi ein hastudiaethau achos?

Aseswyd pob astudiaeth achos i ddangos eu cyfraniad i'r 7 nod llesiant yn seiliedig ar y disgrifyddion swyddogol fel yr amlinellir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd astudiaeth achos sy'n effeithio ar nod llesiant yn cadw'r lliw nod hwnnw, a'r nodau eraill yn llwyd. Rydym hefyd wedi dangos ble a sut mae swyddogion a phartneriaid wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio) wrth ddarparu'r gwasanaeth/gweithgaredd yn y gymuned. Unwaith eto, lle gellir gweld bod pwnc yr astudiaeth achos yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio, mae'r eicon yn ymddangos mewn lliw llawn; lle nad yw hyn yn wir, mae'r eicon wedi'i liwio'n llwyd.

Byddwch yn gweld pedwar blwch lliw a logos yn rhedeg i lawr ymyl pob un o'r astudiaethau achos – mae'r rhain yn cynrychioli'r pedwar amcan llesiant yn y Cynllun Llesiant Corfforaethol (Ffocws ar y Dyfodol – Lles yn Ein Cymuned). Mae'r un egwyddor yn berthnasol, os yw'r astudiaeth achos yn effeithio'n gadarnhaol ar yr amcan, yna bydd yn ymddangos mewn lliw gyda'r logo. Os nad yw'r astudiaeth achos yn effeithio ar yr amcan, bydd y blwch yn ymddangos yn llwyd a heb logo.

Mae hyn yn ein helpu i ddeall ble rydym yn cydweithio, gan integreiddio ein strategaethau a sut y gallwn wella hyn ymhellach.

Astudiaeth achos: Arolygiad ESTYN – Rhaglenni i Deuluoedd


Mae Rhaglenni Teuluol wedi rhedeg mewn ysgolion cynradd ar draws y Fwrdeistref Sirol ers 1997 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Choleg Merthyr Tudful. Pan ddaeth cyllid i ben gan Lywodraeth Cymru yn 2015; cydnabu'r Cngor effaith y Rhaglen a pharhaodd y fenter.

Mae Rhaglenni Teuluol yn cynnig cyfleoedd dysgu mewn ffordd hwyliog ac arloesol i blant a'u teuluoedd, gan greu awyrgylch lle caiff dysgu ei annog, ei werthfawrogi a bod yn rhan o fywyd bob dydd. Mae rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i ymwneud mwy ag addysg eu plentyn tra'n gwella eu lefelau sgiliau eu hunain.

Ym mis Chwefror 2020, cynhaliodd ESTYN (arolygiaeth addysg Cymru) arolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, gan ganolbwyntio'n benodol ar raglenni i Deuluoedd a Rhianta. Dangosodd canfyddiadau allweddol yr arolygiad:

- Mae gan diwtoriaid Rhaglenni i Deuluoedd wybodaeth gynhwysfawr am y pynciau;
- Mae tiwtoriaid Rhaglenni i Deuluoedd yn gyfathrebwyr effeithiol;
- Mae tiwtoriaid y Rhaglenni i Deuluoedd yn ffurfio bondiau cryf, gan feithrin perthynas â phob dysgwr.

Amlygodd yr adroddiad arolygu elfennau o arfer da mewn perthynas â safonau, lles ac agweddau at ddysgu a phrofiadau addysgu a dysgu yn ogystal â chymorth, arweiniad a gofal. Roedd yn cydnabod bod pob dysgwr yn gweithio'n dda ar weithgareddau a gynlluniwyd i addysgu eu plant am arian drwy brofiadau bob dydd. Drwy'r gweithgareddau hyn, cafodd oedolion, yn ogystal â'r plant, ddealltwriaeth ddefnyddiol o'r dulliau presennol o wneud cyfrifiadau. Maent bellach mewn sefyllfa i wneud cynnydd cyson o ran gwella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol eu hunain, a dod yn fwy hyderus mewn tasgau fel ysgrifennu CV, gwneud ceisiadau am swyddi neu ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i ddysgu gyda'u plant.



Hirdymor

Atal

Integredidio

Cynnwys

Cydweithio

Mae'r cwrs hwn wedi agor fy llygaid i'r yn y mae angen i ni fel rhieni/gofalwyr ei wneud i helpu ein plant i ddeall mathemateg a Saesneg. Diolch am y cyfan rydych wedi'i wneud i ni".

Rhiant 'A'

"Mae Rhaglenni i Deuluoedd wedi cael effaith gadarnhaol – mae wedi rhoi cyfle i rieni/gofalwyr weld; a deall yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'r plant yn edrych ymlaen at weld eu rhieni/gofalwyr yn dysgu gyda nhw mewn ysgolion".

Sylw Ysgolion

Astudiaeth achos: Arolygu ESTYN – Rhaglenni Cymorth Rhianta

Ers dechrau'r rhaglen Dechrau'n Deg yn 2007, mae prosiectau Cymorth Rhianta wedi bod ar waith ym Merthyr Tudful. Tynnwyd sylw at y cymorth hwn fel un o bedair elfen/hawl allweddol rhaglen gwrthlododi Llywodraeth Cymru.

Nod rhaglenni Cymorth Rhianta yw cefnogi teuluoedd i ddatblygu hyder, cymhelliant a gwybodaeth mewn ffordd hwyliog ac arloesol. Maent yn creu awyrgylch lle caiff dysgu ei annog, ei werthfawrogi a bod yn rhan o fywyd bob dydd. Mae rhaglenni'n gynhwysol; gyda chefnogaeth y gymuned, maent yn ymgysylltu â 'rhieni anodd eu cyrraedd' a allai fod heb yr hyder i gymryd rhan, oherwydd eu profiadau a'u rhwystrau negyddol eu hunain yn y gorffennol.

Nod y rhaglenni Cymorth Rhianta yw:

- gwella sgiliau rhianta cadarnhaol i reoli ymddygiad yn fwy effeithiol; hyrwyddo sgiliau cymdeithasol plant; hunan-barch a hunan-ddisgyblaeth;
- gwella perthnasoedd rhieni/plant a pherthnasoedd rhieni/rhieni;
- datblygu agweddau a dyheadau cadarnhaol;
- cryfhau dealltwriaeth rhieni o ddatblygiad plant a chefnogi eu gallu i fod yn fwy ymatebol i anghenion eu plant; helpu eu datblygiad a'u lles cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol; a
- chynyddu hyder rhieni yn eu rôl rhianta; a'u hyder a'u sgiliau wrth ddarparu amgylchedd dysgu cartref cadarnhaol.

Yn ystod 2019-2020, bu **280** o rieni yn ymwneud â'r rhaglen, gyda **204** (74%) o rieni'n dweud bod cymryd rhan wedi gwella eu hunanwydnwch. Mae'r adborth a gafwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:

"Roedd y cwrs hwn wedi cael ei addysgu'n dda iawn, rwyf wedi dysgu llawer am ffyrdd o ddelio â rhai materion ymddygiadol o ran fy mhlant"

"Cafodd y cwrs ei redeg yn effeithiol iawn ac yn cefnogi staff. Defnyddiol iawn gyda nifer o awgrymiadau a llawer o dechnegau newydd"

"Diolch yn fawr am fy nghefnogi ar y cwrs hwn! Mae wedi bod mor ddefnyddiol, o gymorth mawr a rhywbeth rwy'n defnyddio bob dydd yn fy mywyd gyda fy mab. Rwy'n ddiolchgar iawn am y wybodaeth rwyf wedi'i chael ar y cwrs ond hefyd y gefnogaeth rwyf wedi'i chael oddi wrth Linda a Sue. Does gennych chi ddim syniad faint mae'r ddwy ohonoch wedi fy helpu!! Byddaf yn ddiolchgar am byth"



Astudiaeth achos: Rhaglen Cyflawni Sefydlog Ysbrydoli i Gyflawni

Prif nod y rhaglen ddarparu sefydlog yw galluogi pob dysgwr i godi eu dyheadau a datblygu i'r gorau gallant fod. Gwneir hyn trwy ddarparu amgylchedd diogel a hamddenol i weithio ynddo a thrwy ddarparu dull person-ganolog sy'n canolbwyntio ar gydol cyflwyno'r rhaglen. Mae pob aelod o staff bob amser yn agos, er mwyn annog ac atgoffa pobl ifanc o'u potensial wrth weithredu fel modelau rôl cadarnhaol trwy gydol y rhaglen gyflawni.



Roedd dysgwyr a fynychodd y rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni am un diwrnod yr wythnos yn gweithio tuag at Dystysgrif Agored Lefel 1 mewn Gofal Personol a Chymdeithasol. Mae hyn yn cyfateb i TGAU (gradd D-G).

Ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2019/20, roedd cyfanswm o 12 dysgwr yn gweithio tuag at yr unedau canlynol;

- Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Hamdden
- Deall Rhagfarn a Gwahaniaethu
- Deall Camddefnyddio Sylweddau
- Deallusrwydd Emosiynol
- Ymwybyddiaeth o Alcohol

O ganlyniad i gwblhau'r pum uned hyn, cyflawnodd pob un o'r 12 dysgwr Dystysgrif Agored Cymru Lefel 1 mewn Addysg Personol a Chymdeithasol.

Enwebwyd un o'r disgyblion Cyflawni Sefydlog gan y Tiwtor Ysbrydoli i Gyflawni ar gyfer 'Gwobr Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn 2020'. Cafodd Morgan ei roi ar y rhestr fer yn llwyddiannus gan gyrraedd y pedwar olaf ar gyfer y wobr, a mynychodd Seremoni Wobrwyo Academi Llwyddiant Merthyr Tudful ochr yn ochr â 2 aelod o dîm Ysbrydoli i Gyflawni.



Astudiaeth achos: Taith Person Ifanc – C

Cafodd C ei gyfeirio at brosiect Ysbrydoli i Weithio ym mis Awst 2019 gan Gyrfa Cymru. Cyfeiriwyd C er mwyn derbyn cefnogaeth i gael cymwysterau cysylltiedig â gwaith a phrofiad gwaith. Cynigiwyd cyfle i C gymryd rhan mewn prosiect yr oedd Ysbrydoli i Weithio yn ei drefnu mewn partneriaeth â Lovell Construction. Pan gofrestrodd C gyntaf i Ysbrydoli i Weithio roedd ganddynt hyder a hunan-barch isel a dywedwyd wrthym nad oedd C yn bendant iawn. Teimlai C ei fod yn yr unfan heb fawr o hyfforddiant galwedigaethol a dim profiad gwaith. Oherwydd oedran C, roedd C am wella hyn ac yn y pen draw ennill cyflogaeth fel y gallai ddechrau ennill rhywfaint o arian.

Cynlluniwyd y rhaglen dros fis gyda rhaglen fewnol ddwys o bythefnos ac yna bythefnos o brofiad gwaith ar safle adeiladu gwaith gyda Lovell. Mynychodd C y diwrnod cyntaf a oedd yn cynnwys digwyddiad Adeiladu Tîm gyda Lovell Construction. Oherwydd rhywfaint o hyfforddiant gwaith coed roedd C wedi'i dderbyn yn y Coleg, roedd C yn allweddol i arwain y grŵp o 8 cyfranogwr i adeiladu tŷ pren symudol.


Roedd C yn wrandawr da ac roedd yn gallu derbyn y cyfarwyddiadau a roddwyd gan Lovell. Aeth C ymlaen i gwblhau gweddill y rhaglen hyfforddi fewnol o bythefnos a oedd yn cynnwys cymysgedd o gymwysterau cysylltiedig â gwaith a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau. Cwblhaodd C Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Trin â Llaw, Cymorth Cyntaf yn y Gwaith, Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch a Diogelwch Tân yn llwyddiannus. Roedd cyflawni'r rhain yn caniatáu i C symud ymlaen i gyfweiliad profiad gwaith ar y safle gyda Lovell.

Nid oedd gan C unrhyw brofiad o gyfweiliadau nac unrhyw brofiad gwaith go iawn cyn hyn. Yn ystod y Sgiliau Cyfweld, cefnogwyd C i ennill Gwobr Lefel 1 AGORED a chymerodd ran mewn ffug gyfweiliadau, Gweithdai Ysgrifennu CVau a chafodd gyfweiliad â Lovell. Mae'r hyfforddiant hwn wedi helpu C i oresgyn rhwystrau hyder a gwell hunan-barch, a daeth C yn fwy pendant o ganlyniad.

Er nad oedd gan C brofiad cyfweiliadau na phrofiad gwaith blaenorol, bu C yn llwyddiannus yn y cyfweiliad yn Lovell a chynigiwyd lleoliad profiad gwaith pythefnos gyda Chontractwr Cymwysedig ar un o'u safleoedd lleol. Roedd Lovell Contractors yn gallu cynnig mentora i C ar y safle tra bod Ysbrydoli i Weithio yn parhau i weithio gydag C i ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Roedd Lovell yn ansicr ar yr adeg hynny a fyddai C yn cwblhau'r pythefnos oherwydd bod C yn dawel ac yn swil iawn. Fodd bynnag, aeth C ymlaen i brofi ni gyd yn anghywir drwy nid yn unig cwblhau'r lleoliad gwaith a'r holl hyfforddiant mewnol a galwedigaethol, ond C oedd yr unig gyfranogwr allan o'r 8 cychwynnol a aeth ymlaen i gyflawni a llwyddo'r prawf Cerdyn Gwyrdd CSCS.

Enwebwyd C ar gyfer Gwobr Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn gyda'r Academi Llwyddiant Ieuencid ac ar 4 Mawrth 2020, mynychodd C y seremoni wobrwyo gyda staff Ysbrydoli i Weithio ac fe'i dyfarnwyd yn ail.

Parhaodd hyder C i dyfu ac ar ddiwedd y pythefnos roedd C yn teimlo'n barod i ymgymryd â mwy o hyfforddiant er mwyn gallu cofrestru gydag Asiantaethau yn y maes adeiladu. Aeth C ymlaen i gwblhau Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch CITB a gyda chefnogaeth Ysbrydoli i Weithio, a gwnaeth gais am brawf Cerdyn Gwyrdd CSCS. Roedd C yn llwyddiannus ac erbyn hyn mae'n teimlo'n barod i wneud cais i weithio yn y galwedigaeth hon.



Astudiaeth achos: Prosiect Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i Dargedu

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i Dargedu yn cynnig cymorth i bobl ifanc drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau, digwyddiadau, cyrsiau a chymwysterau. Mae gan y person ifanc y cyfeirir ato yn yr astudiaeth achos hon anhawster dysgu difrifol a achosir gan gyflwr genetig. Roedd y person hwn yn awyddus i ddysgu sgiliau newydd ac i gael profiad ar ôl gadael yr ysgol yn 16 oed.

Ymgysylltodd y person ifanc â sawl maes o'r Gwasanaeth Ieuenctid a chymryd rhan ynddynt dros gyfnod o dair blynedd. I ddechrau, gweithredodd y person ifanc fel gwirfoddolwr yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i Dargedu yn ystod diwrnod gwybodaeth gymunedol lleol. Cymerodd y person ifanc y cyfrifoldeb am ddarparu sesiynau chwarae a chwaraeon awyr agored i ymwelwyr o'r digwyddiad cymunedol. Gan ddefnyddio'r profiad cychwynnol hwnnw, cymerodd y person ifanc ran mewn sawl gweithgaredd a phrosiect oedd wedi'u trefnu.

Gan ei fod â chefnidir mewn garddwriaeth, cymerodd y person ifanc rôl arweiniol wrth drefnu a chyfarwyddo cyfranogwyr mewn canolfan ieuenctid i baratoi rhandir.

Yna cwblhaodd y person ifanc gwrs sgïo sych ac ennill cymhwyster yn seiliedig ar sgiliau trwy gymryd rhan. Cymerodd y person ifanc ran hefyd mewn dau ymweliad cyfnewid rhyngwladol, un i Norwy ac un yn Sbaen. Drwy'r ymweliadau hyn, roedd y person ifanc yn gallu ennill cymhwyster ieuenctid rhyngwladol. Cymerodd y person ifanc ran hefyd mewn tri alldaith hwylio'r Ymddiriedolaeth Llongau Tal ac enillodd gymhwyster mewn hwylio trwy gymryd rhan. Gwnaeth y person ifanc mor dda ar un alldaith, fe wnaethant lywio'r Llong Tal ar ben ei hunan i'r harbwr o flaen 1000 o wylwyr.

O ganlyniad i'w ymgysylltiad â gweithgareddau lluosog, mae'r person ifanc wedi cyflawni cymysgedd o gymwysterau ffurfiol ac anffurfiol sy'n seiliedig ar sgiliau, yn ogystal â derbyn profiad amhrisiadwy y gallant ei ddefnyddio i symud ymlaen i gyflogaeth.

Cymwysterau a gyflawnwyd

- Sgiliau Gwaith BTEC Lefel Un
- Gwobr Criw Cymwys y Gymdeithas Hwylïo Frenhinol
- Chwaraeon a Ffitrwydd ASDAN, Cwrs Byr
- Gwobr Cyflawniad Ieuenctid – Lefel Efydd

Sylwadau/adborth y myfyrwyr:

"Roedd yn hwyl. Mwynheais helpu ac fe wnes i ffrindiau a dysgu am leoedd eraill".

"Roedd mynd i Sbaen a Norwy wedi helpu gyda fy hyder a goresgyn fy mhryder".

"Roedd hwylio yn fy ngwneud yn fwy annibynnol a dysgais sgiliau newydd".



Astudiaeth achos: Meddyliau Creadigol – Prosiect Celfyddydau Creadigol Clwb Bechgyn a Merched Georgetown

Cynlluniwyd y prosiect Meddyliau Creadigol er mwyn gweithio gyda Phobl Ifanc ar faterion Iechyd Meddwl a Lles drwy brosiectau creadigol amrywiol. Darperir y prosiect drwy drefniant partneriaeth gyda Youth Cymru a Spirit 2000. Fe wnaethant ddarparu'r cyllid ar gyfer y prosiect gyda Darpariaeth Ieuencid Clwb Bechgyn a Merched Georgetown, gan gyflwyno'r prosiect trwy'r Clwb Ieuencid.

Nod y prosiect yw gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed, gan ganolbwyntio ar y celfyddydau creadigol ac iechyd meddwl a lles. Mae'r prosiect yn gweithio i nodi 13 o Hyrwyddwyr i arwain y gwaith o ddatblygu'r prosiect ac yna ehangu cwmmpas y gwaith i grŵp ehangach o Bobl Ifanc.

Bob blwyddyn roedd yr Hyrwyddwyr yn gyfrifol am gymryd rhan, cynllunio a threfnu gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer y grŵp ac ar gyfer pobl ifanc mewn clybiau ieuencid ac ar draws y fwrdeistref. Cawsant gyfarfodydd wythnosol, ymarferion, nosweithiau meic agored/karaoke misol, cyfleoedd celfyddydol a diwylliannol gan gynnwys ymweliadau â theatrau.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cyfranogwyr wedi gwirfoddoli mewn amryw o ddigwyddiadau cymunedol, gan gynnwys digwyddiad cymunedol y Pentref Byd-eang, yn Theatr Soar a hefyd digwyddiad Dathlu Ieuencid Cymru 2019. Maent hefyd wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch Hyrwyddwyr Ifanc sy'n ceisio datblygu sgiliau ym maes rheoli a hyrwyddo digwyddiadau.


Wrth redeg y prosiect, gweithiodd Darpariaeth Ieuencid Clwb Bechgyn a Merched Georgetown gyda nifer o asiantaethau partner i wella profiad Pobl Ifanc ac i ehangu'r cynnig o Feddyliau Creadigol i Ddarpariaethau Ieuencid eraill o fewn ardal Cyngor Merthyr Tudful. Roedd hyn yn cynnwys cynnig lleoedd ar weithgareddau oddi ar y safle, gwyliau, cynrychiadau cerddorol, perfformiadau theatr a chymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau amrywiol eraill.

Digwyddiad Arddangos 'Amser i Newid'

Fel rhan o'r prosiect bu'n rhaid i'r Bobl Ifanc redeg y prosiect gweithredu cymdeithasol 'Amser i Newid'. Trefnodd y Bobl Ifanc bopeth gan gynnwys y cyfryngau, cyhoeddusrwydd, prosiectau a gweithgareddau a sicrhau bod y bobl ifanc yn ymuno i berfformio a chymryd rhan. Yn dilyn ymchwil a chysylltu â sawl lleoliad dewisasant gynnal y digwyddiad yn Theatr Soar. Dilynyd hyn gan ddigwyddiad arddangos o dalent Pobl Ifanc o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol gyda 2 westeiwr yn cyflwyno gwybodaeth am iechyd meddwl a lles. Ar ddiwedd y digwyddiad, rhoddodd y cyfranogwyr fagiâu nwyddau yr oeddent wedi'u creu i'r Bobl Ifanc, gyda thafenni gwybodaeth a dyfyniadau y tu mewn iddynt.

Drwy gymryd rhan ar y prosiect, enillodd y Bobl Ifanc achrediad Trefnu Digwyddiad Cymunedol, adrannau tuag at gwrrdd â Heriau ar gyfer y Gwobrau Cyrhaeddiad Ieuencid a chwblhau adrannau o Wobr Dug Caeredin. Yn ddi-os, mae hyn hefyd wedi cynyddu hunanhyder y cyfranogwyr wrth ddatblygu eu sgiliau adeiladu tîm a chyfathrebu. Yn ogystal â Meddyliau Creadigol, mae rhai o'r Bobl Ifanc wedi mynd ati ar eu pen eu hunain ac wedi trefnu eu gig eu hunain. Cynhaliodd un person ifanc ddigwyddiad Dathlu Ieuencid Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Creodd un Person Ifanc CD. Darparodd un Person Ifanc sesiynau gitâr yn ystod gwyliau'r ysgol pan nad oedd y tiwtor yno.

Cafodd yr holl weithdai a gyflwynwyd eu cynllunio a'u datblygu'n becyn cymorth ar gyfer gweithwyr ieuencid eraill ledled Cymru, a fydd naill ai'n cael eu hargraffu neu eu cyhoeddi fel dogfen ar-lein ar ôl eu cwblhau.




Astudiaeth achos: Hyb Cymorth Cynnar: Plant ag Anableddau

Mae B yn 17 oed. Mae ganddi anabledd dysgu ysgafn, a diagnosis o anhwylder ymlyniad pryderus / anhrefnus ac ymddygiad heriol. Mae B yn byw gyda'i mam ac mae'n cysylltu'n rheolaidd â'i thad; mae hi hefyd yn mynychu ysgol arbenigol. Roedd B yn arddangos achosion hunan-niwed ac ymddygiad heriol gydag ymddygiad ymosodol geiriol a chorfforol, fel arfer wedi'i dargedu at ei mam ond hefyd aelodau eraill o'r teulu. Arweiniodd hyn at y fam yn cael cymorth teuluol cyfyngedig gyda B. Gofynnodd mam B am asesiad iddi gael Gweithiwr Cymdeithasol Plant ag Anableddau a chymorth pellach fel y teimlai na allai barhau i reoli ymddygiad B a hoffai iddi gael ei lletya mewn lleoliad maeth. Oherwydd anabledd dysgu B, teimlai ei mam nad oedd yn bosib i'w gadael ar ei phen ei hun am gyfnodau byr lle byddai pobl ifanc 17 oed eraill yn gallu ymdopi ac felly, ychydig iawn o seibiant a gafwyd o'i gofal parhaus.

Cwblhawyd asesiad gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a derbyniwyd achos B i'r tîm Plant ag Anableddau. Yn ogystal â hyn, cwblhawyd asesiad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gyda diagnosis wedi'i ddiweddarau, adolygwyd meddyginiaeth ac atgyfeiriad ar gyfer therapi teuluol wedi'i gwblhau; roedd meddyg teulu B hefyd yn rhagnodi meddyginiaeth i'w helpu i fod yn bryder. Cyd-gynhyrchwyd asesiad a chynllun gofal a chymorth cymesur, a chytunwyd y byddai canlyniadau personol B yn edrych ar ei gallu i leisio ei theimladau mewn ffordd iach a symud tuag at annibyniaeth. Cyfranogwyr yn y broses hon oedd B, ei rhieni, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, yr Ysgol ac Iechyd.

O ganlyniad i weithio'n llwyddiannus gyda'r Tîm Plant ag Anableddau a'r aml-asiantaethau, mae'n ymddangos bod pryderon B bellach wedi lleddfu ac mae ei ffrwydradau ymosodol wedi tawelu. Mae B yn hapus i siarad â'i heiriolwr a lleisio'i barn ar faterion yn ei bywyd. O ganlyniad, mae B wedi aros gartref gyda'i mam ac mae ganddi gynllun gofal a chymorth cadarn ar waith sy'n diwallu ei hanghenion ac yn cefnogi ei mam i ofalu amdani. Y diweddariad gan fam B yn ei bod yn hapus â'r cynllun presennol ac mae'n falch o adrodd bod bywyd cartref bellach yn ddigyffro.



Astudiaeth achos: Cefnogi Newid: Ymarfer Cadarnhaol


Mynegwyd pryderon o ran mam a oedd yn camddefnyddio sylweddau a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar ei 3 phlentyn. Roedd y camddefnyddio sylweddau gan y fam yn effeithio ar ei gallu i rianta ei phlant yn briodol. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud ag amodau cartref, diffyg goruchwyliaeth, adroddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o'r cartref ac oedolion amhriodol yn mynychu'r cartref, a oedd yn rhoi'r plant mewn perygl o niwed.

Derbyniwyd atgyfeiriad gan y gweithiwr cymdeithasol dynodedig yn y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal, lle gofynnwyd am Asesiad Rhianta i asesu gallu'r fam i gael ei 3 phlentyn hŷn. Roedd asesiad rhianta yn cael ei gynnal gyda'r fam yn dangos y pellter a deithiwyd drwy archwilio'r ymddygiadau a oedd yn peri pryder yn y gorffennol a'i gymharu â'r ymddygiadau presennol a arsylwyd. Ystyriodd yr asesiad gamddefnyddio sylweddau a ffactorau allweddol eraill a oedd wedi effeithio ar fywyd teuluol. Mae'r broses Asesu Rhianta yn chwarae rhan allweddol ac yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac asesu a oedd yn ddiogel i'r plant aros neu ddychwelyd i'r cartref. Arweiniodd hyn at gynnwys y Gwasanaethau Plant ac roedd y plant yn cael eu lletya gan yr Awdurdod Lleol; rhoddodd y fam enedigaeth i blentyn arall yn ddiweddarach a chafodd y baban ei letya gan yr Awdurdod Lleol hefyd.

Drwy weithio gyda'r fam, cynhaliwyd ymweliadau ar y cyd rhwng y gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd a'r gweithiwr Cefnogi Newid er mwyn sicrhau bod pob parti yn gytûn ar y broses asesu ac yn canolbwyntio ar y materion craidd a'r hyn sydd wedi newid. Ymgwymerwyd â dull integredig a chydweithredol gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r gweithiwr Cefnogi Newid er mwyn sicrhau bod cyfranogiad a chyfraniad aml-asiantaethol yn cael eu defnyddio'n llawn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Roedd y dull hwn yn ystyried dymuniadau a theimladau'r plant, wedi'u cydbwysu'n erbyn risg a chryfderau teuluol.

Ymgysylltodd y fam yn gadarnhaol â'r broses asesu dwys a oedd yn atgyfnerthu ac yn cefnogi ei dealltwriaeth o'r agweddau cadarnhaol ar newid. Cyflawnwyd dymuniadau a theimladau'r fam a'r plant drwy gytuno ar gynllun adsefydlu pedwar mis gyda monitro ac adolygu rheolaidd. Defnyddiwyd profion Lextox rheolaidd hefyd i ddangos tystiolaeth o'r newidiadau cadarnhaol a wnaed gan fam, ac fe barhaodd ei hymrwymiad a'i chymhelliant yn ystod y cam cynnal a chadw. Mae'r profion hyn wedi sefydlu ymataliaeth sylweddau lwyddiannus mam am gyfnod o ddwy flynedd. Awgrymodd yr Asesiad Rhianta fod newid cadarnhaol wedi cael ei gynnal yn llwyddiannus o gymharu â phryderon a chyfranogiad blaenorol y Gwasanaethau i Blant.

Gweithiodd y fam yn gadarnhaol gyda'r Gwasanaethau i Blant a chafodd ei baban ei dychwelyd yn llwyddiannus yn ôl i'w gofal. O ganlyniad i'r cynnydd cadarnhaol a wnaed ac yn unol â dymuniadau a theimladau'r tri phlentyn hŷn, cânt eu dychwelyd yn ôl i ofal eu mam a byddant yn rhan o'u huned deuluol eto. Mae'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn dangos gallu'r fam i ddiwallu anghenion ei phlant gan ddarparu amgylchedd cartref sefydlog a chariadus iddynt. Bydd hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu ymlyniad gyda'u brawd neu chwaer ieuengaf ac adeiladu ar berthnasoedd presennol gyda'u mam. Mae'r cynllun cynnydd ac adsefydlu cadarnhaol yn rhoi ymdeimlad o normalrwydd i'r plant ac yn dangos iddynt fel teulu, y gellir cyflawni canlyniadau cadarnhaol.




Astudiaeth achos: Hyb Cymorth Cynnar: Gweithiwr Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig

Cafodd y person ifanc (sydd bellach yn 17 blwydd a 10 mis oed) ei symud o ofal ei fam a'i lysdad oherwydd esgeulustod ym mis Mawrth 2013 a'i roi gyda'i fam-gu a thad-cu ar ôl i orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig gael ei ddyfarnu. Yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 cynigir asesiad blynyddol i bob plentyn sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a'u gofalwyr, i nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Cysylltwyd â'r fam-gu a thad-cu gan y gweithiwr Gwarcheidiaeth Arbennig i roi gwybod i'r gofalwyr am y cymorth sydd ar gael a derbyniodd y gofalwyr yr asesiad.

Roedd nifer o faterion wedi'u nodi ar ôl cwblhau'r asesiad. Yn bennaf oll, roedd y person ifanc yn ofni'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roeddent hefyd wedi gadael yr ysgol yn 16 oed ac nid oeddent wedi derbyn unrhyw addysg na hyfforddiant ffurfiol ers hynny. Roedd y person ifanc yn dioddef o bryder ac iselder a oedd yn ei gwneud yn anodd iawn gadael amgylchedd y cartref; roedd hyn yn gwneud iddynt deimlo'n ynysig iawn yn gymdeithasol. Yn ogystal â hyn, nid oedd gan y person ifanc rif Yswiriant Gwladol ac felly nid ydynt yn derbyn nac yn gallu gwneud cais am unrhyw fudd-daliadau.

Cysylltodd y tîm Gwarcheidiaeth Arbennig â'r person ifanc a'i fam-gu a thad-cu a chytunwyd i'r Gweithiwr Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig gael cymorth oddi wrth y Bwrdd Iechyd er mwyn iddynt helpu gydag iechyd meddwl y person ifanc. Yn ogystal â hyn, helpodd y Gweithiwr Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig y person ifanc i wneud cais llwyddiannus am rif Yswiriant Gwladol. Bydd hyn yn caniatáu iddynt fod mewn sefyllfa i ddechrau'r broses o wneud cais am yr holl fudd-daliadau perthnasol yr oedd y person ifanc yn gymwys i'w cael.

O ganlyniad i gymorth a chefnogaeth y Nyrs Iechyd Meddwl Sylfaenol a'r Gweithiwr Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig, mae'r person iau wedi mynychu meddygon teulu ac mae bellach yn teimlo y gall adael amgylchedd y cartref gan fod lefelau ei bryderon wedi gostwng ac mae'n llai pryderus. Yn ogystal â hyn, mae'r Gweithiwr Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig wedi cydweithio â'r Ganolfan Gyngor i Breswylwyr sydd wedi darparu gwybodaeth iddynt am yr hawliau budd-daliadau y gall y person ifanc wneud cais amdanynt.



Astudiaeth achos: Digwyddiad Rhwydwaith Trechu Tlodi

Yn ystod cyfarfod o Grŵp Arweinwyr Gweithredol Trechu Tlodi'r Cyngor; nododd trafodaethau y cyfleoedd cadarnhaol y gellid eu gwireddu a fyddai'n cefnogi'r nifer o dimau dan sylw i gydweithio'n well.

Trefnwyd gan Reolwr Cyflogadwyedd y Cyngor; cynhaliwyd y digwyddiad ym mis Gorffennaf 2019 yn y Ganolfan Gymunedol yn Aberfan. Gwahoddwyd nifer o staff o dimau ar draws y Cyngor i fod yn bresennol; ynghyd â staff o sefydliadau sy'n cynnig cyngor, arweiniad a chymorth i breswylwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Drwy gasglu pawb at ei gilydd mewn man a rennir, cynigiwyd cyfleoedd i aelodau o wahanol dimau ddod at ei gilydd; i gwrdd, rhoi enwau i wynebaw a rhannu'r math o weithgareddau yr oeddent yn eu cyflawni er mwyn atal tlodi; neu i gefnogi'r rhai a oedd yn byw islaw'r trothwy tlodi ar hyn o bryd i ddod o hyd i'r cymorth cywir i wella eu sefyllfa.

Mynychodd dros 120 o bobl y digwyddiad bywiog a llawn gwybodaeth hwn; daeth y rhain o drawstoriad o dimau/sefydliadau gan gynnwys:

- Barnardos
- Drive
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful
- Adref
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Canolfan Gyngor i Breswylwyr
- Dechrau'n Deg
- MIND Merthyr a'r Cymoedd
- Pobl
- Llamau
- Hyb Cymorth Cynnar
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Gofal
- Darparwyr y Blynnyddoedd Cynnar
- Barod
- Tîm Rhianta
- Cyngorwyr ac Aelodau'r Cabinet

Canfu'r adborth a gafwyd yn dilyn y digwyddiad fod y rhai a oedd yn bresennol wedi cael y digwyddiad yn fuddiol iawn; eu bod wedi gwneud cysylltiadau newydd ac wedi nodi cyfleoedd i weithio'n agosach mewn partneriaeth tuag at nod cyffredin, sef cefnogi pobl Merthyr Tudful.



"Roedd y digwyddiad cyfan hwn yn gadarnhaol iawn – rwy'n edrych ymlaen at ddechrau gweithio gyda chysylltiadau newydd i wella ymhellach y cymorth y gallwn ei gynnig"

"Lleoliad ardderchog ar gyfer y math hwn o ddigwyddiad - rhwydweithio ar ei orau! Mae wedi bod yn dda iawn rhoi enwau i wynebaw a phartneriaid – dylem gael y rhain yn amlach"

"Rwyf wedi cwrdd â llwyth o bobl ac wedi cael gwybodaeth werthfawr y gallaf ei defnyddio wrth weithio gyda chyfranogwyr. Gofal plant oedd fy mhrif flaenoriaeth heddiw ac wrth adael mae gen i'r wybodaeth"

Astudiaeth achos: Tai yn Gyntaf

Sefydlwyd prosiect Tai yn Gyntaf arloesol Merthyr Tudful fel rhan o ymgyrch y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru.

Nodwyd yr angen am Dai yn Gyntaf wedi'i dargedu at bobl ifanc 16-25 oed a chymeradwywyd prosiect yn dilyn cais i Gronfa Arloesi Ieuenticid Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd y cyllid i benodi Rheolwr Prosiect; a chostau eraill. Mae'r cynllun wedi'i anelu at bobl ifanc sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, sydd ag anghenion cymhleth megis anghenion corfforol ac iechyd meddwl. Gallent gael hanes o dderbyn gofal neu fod wedi dioddef trawma yn eu bywydau.

Roedd yr arian a ddyfarnwyd hefyd yn cwmpasu costau cyfalaf er mwyn sicrhau y gall pob fflat roi'r cysur a'r cyffyrddiad personol fel y gall pob person ifanc gael dweud eu dweud am y ffordd y mae'r fflat yn cael ei ddodrefnu a'i addurno fel bod eu heiddo'n mynd gyda hwy pan fyddant yn symud ymlaen, er mwyn eu helpu i ddechrau arni yn eu cartref newydd.




Mae preswlydd cyntaf y fenter Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc wedi symud i'w llety newydd - fflat wedi'i ddodrefnu'n llawn a ddarperir gan Dai Cymru a'r Gorllewin. Bydd preswylwyr yn cael eu cefnogi gan staff o elusen pobl ifanc ddigartref Llamau a'r Cyngor, a fydd yn monitro eu hiechyd a'u lles ac yn eu helpu i ddatblygu sgiliau bywyd ac yn cymryd rhan mewn cyfleoedd addysg a hyfforddiant i fanteisio i'r eithaf ar eu cyfleoedd i gael swydd.

Pan ystyrir bod person ifanc yn barod i symud i'w eiddo annibynnol ei hun, bydd angen iddo gofrestru ar system 'Living Merthyr Tydfil' - enw'r Gofrestr Tai Cyffredin - ac aros i gael llety.

Dyweddodd Anne Hinchey, Prif Weithredwr Grŵp Tai Cymru a'r Gorllewin: "Rydym yn falch o chwarae rhan mewn prosiect mor arloesol. Rydym wedi ymrwmo i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi cynghorau lleol a Llywodraeth Cymru drwy gynyddu nifer ein cartrefi a ddarperir gennym ar gyfer prosiectau Tai yn Gyntaf fel hyn. Rydym hefyd yn gweithio gydag asiantaethau cymorth i adeiladu mwy o dai arbenigol a phenodol newydd lle mae angen. Rydym yn gobeithio y bydd y bobl ifanc sydd wedi symud i'n cartref yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn falch o gael lle y gallant alw adref cyhyd ag y bo angen arnynt."

Dyweddodd yr Aelod Portffolio dros Adfywio Cymunedol "Bydd rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar y bobl ifanc hyn i fyw'n annibynnol yn sicrhau eu bod yn gallu cynnal tenantiaeth, lleihau a hyd yn oed ddileu'r risg y byddant yn dod yn ddigartref yn y dyfodol. Bydd y dull cydweithredol hwn o weithio gyda phobl ifanc hefyd yn caniatáu iddynt dyfu'n llwyddiannus i fod yn oedolion, gwella eu lles a'u helpu i fod yn aelod gweithgar o'u cymuned."



Astudiaeth achos: Cydbwysedd

Yn dilyn ymarfer ymgynghori cymunedol a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, nododd y Cyngor gyfle i gynnig dechrau da i blant reidio' u beiciau mewn ffordd ddiogel, hygyrch ac o ansawdd uchel. Cyflwynodd y tîm Datblygu Chwaraeon brosiect peilot yn y gymuned o'r enw 'Cydbwysedd'. Gan weithio gyda phartner darparu beiciau profiadol, Gethin MTB, cwblhaodd swyddogion raglen addysg Cydbwysedd benodol. Roedd y peilot yn cynnwys dwy sesiwn yn yr ysgol gyda dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, a datblygwyd cwrs cymunedol chwe wythnos wedi'i anelu at blant 3-6 oed. Prydesodd Heini Merthyr Tudful fflyd o feiciau cydbwysedd ac roedd y prosiect yn barod i fynd.


- Mae'r sesiwn beilot gyntaf a gyflwynwyd yn Ysgol Gynradd Cyfarthfa wedi arwain yn uniongyrchol at y Swyddog Cyswilt Teuluol yn mynegi diddordeb mewn Clwb Beicio Cydbwysedd ar ôl ysgol. Mae Gethin MTB bellach yn cysylltu â'r ysgol i edrych ar sut y gallant wneud i hyn ddigwydd.
- Cafodd yr ail gynllun peilot ei gyflwyno yn Ysgol Gynradd Edwardsville. Arweiniodd hyn at yr Athro Arweiniol cyfnod sylfaen yn dod o hyd i gyllid i brynu eu beiciau cydbwysedd eu hunain ar gyfer yr ysgol y gallai plant eu defnyddio yn ystod eu cyfnod egwyl.
- Roedd sesiwn gymunedol hefyd yn rhedeg allan o Glwb Bechgyn a Merched Georgetown; gwelodd hyn 15 o gyfranogwyr yn cofrestru ar gyfer y cwrs. Erbyn diwedd y rhaglen 6 wythnos, mae plant wedi gwella eu hyder a'u sgiliau'n fawr wrth reidio beic.

Graddiodd pob rhiant hyder eu plentyn cyn ac ar ôl y cwrs a dywedodd pob un fod hyder eu plentyn wedi gwella. Dywedodd 100% o rieni fod y cwrs wedi eu cynorthwyo i addysgu eu plentyn i reidio eu beiciau y tu allan i'r sesiwn a dywedodd tri chwarter y rhieni fod eu plant wedi bod yn ymarfer eu sgiliau gartref. Derbyniodd y plant dystysgrif a thaleb ddisgownt a roddwyd gan siop beiciau EC Cycles ym Merthyr i brynu eu beiciau eu hunain.

O ganlyniad i gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol hyn, wrth symud ymlaen bydd 'cydbwysedd' yn cynnwys cyfleoedd cymunedol lefel 1 a lefel 2 pellach, y bydd Gethin MTB yn eu cynnal. Byddwn hefyd yn dod o hyd i gyllid er mwyn sefydlu darpariaeth o fewn y cwricwlwm gan Ddiogelwch ar y Ffyrdd Merthyr Tudful i roi dechrau da i blant ar eu taith feicio, ac annog y defnydd o lwybrau teithio llesol yn ddiweddarach mewn bywyd.

"(Roedd ganddyn nhw) hunanhyder isel iawn i ddechrau wrth reidio beic cydbwysedd am y tro cyntaf - bron iddynt gerdded allan o'r dosbarth, ond erbyn hyn mae'n mwynhau dod i'r dosbarth ac mae hyder wedi tyfu"

"Roeddem am roi gwybod i chi faint oedd ein plant dosbarth derbyn yn mwynhau eu sesiwn ddiweddar ar y beiciau cydbwysedd. Rydym wrth ein bodd â'r cynllun beiciau cydbwysedd yn Ysgol Gynradd Cyfarthfa a hoffem ystyried rhedeg hyn fel gweithgaredd ar ôl ysgol i'n plant".



Astudiaeth achos: Sgiliau Gweithio i

I ddechrau, ymunodd 'L' â Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 i wella ei sgiliau cyfrifiadurol trwy gwblhau ei gymhwyster Trwydded Yrru Cyfrifiaduron Ewropeaidd i'w alluogi i symud ymlaen yn ei yrfa.

Gan fod 'L' yn gweithio'n rhan-amser fel gweithiwr cynnal a chadw mewnlol ar gyfer cwmni diogelwch, roedd hefyd yn gymwys i elwa o gymorth gan y prosiect Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu. Roedd am fod yn swyddog diogelwch o fewn y cwmni yr oedd eisoes yn gweithio iddo ond teimlai ei fod wedi'i ddal yn yr unfan a bod angen rhywfaint o help arno i wneud hyn.

Teimlai 'L' fod ei gyflwr Asperger a'i ddiffyg hyder wrth gwrdd â phobl newydd yn rhwystrau iddo wrth symud ymlaen â'i gyflogaeth ac roedd am gymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â hyn.

Gan weithio gyda'i swyddog cyflogaeth Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu, cefnogwyd 'L' gyda nifer o sesiynau meithrin hyder. Teimlai fod y sesiynau hyn yn gwella'i les ac yn ei gymell i gael mynediad i weithdai proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Roedd y sesiynau eraill hyn yn cynnwys cymorth CV; chwilio am swydd; cymorth ymgeisio a thechnegau cyfweld.

Pan daeth swydd wag ar gael yn y cwmni yr oedd 'L' yn gweithio iddo, cafodd ei gefnogi gyda'i gais a chafodd hyfforddiant techneg cyfweld. Sicrhaodd 'L' rôl fel Swyddog Diogelwch, gydag oriau llawn amser a llwybrau dilyniant posibl yn y dyfodol.


Mae gan 'L' ddiddordeb brwd yn y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ac mae hefyd wedi symud ymlaen i'r Brifysgol Agored lle mae bellach wedi cael ei dderbyn i astudio gradd yn y gyfraith.

Working Skills for Adults



"Hoffwn ddiolch i Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 a Meithrin, Cyfarparu a Ffynnu am eu holl gefnogaeth i'm hannog i ddilyn fy nodau. Gall y timau hyn eich helpu i gael y swydd rydych chi ei eisiau!"

'L'



Astudiaeth achos: Cynhadledd Diwrnod Cyrchfan 2019 (Twristiaeth)

Gyda threftadaeth gyfoethog a chefn gwlad hardd, mae Merthyr Tudful wedi datblygu uchelgais i ddod yn brif cyrchfan i bobl ymweld â hi; aros yma ac archwilio. Sector twf yw twristiaeth ac mae eisoes yn darparu cyflogaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol; gyda chynlluniau i ddatblygu'r gwasanaethau presennol ymhellach a chyflwyno ffyrdd newydd ac arloesol o ymweld â Merthyr Tudful a'i archwilio.

Roedd gan gynhadledd Datblygu Cyrchfannau, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Orbit, Merthyr Tudful, amrywiaeth eang o siaradwyr gan gynnwys arbenigwyr ym meysydd twristiaeth, pensaernïaeth ac adeiladu, ynghyd ag entrepreneuriaid sy'n darparu gweithgareddau antur, llety, siopa, bwyta ac adloniant.

Diweddarwyd y cynrychiolwyr yn y digwyddiad ar y cynnydd a wnaed o ran y cynlluniau a'r prosiectau cyffrous sy'n cael eu datblygu. Cafodd y rhai a oedd yn mynd i'r gynhadledd ddiweddiadau am y prosiectau a oedd yn dechrau dwyn ffrwyth, a phrosiectau tymor hwy ar raddfa fwy a oedd ar y cam cynllunio gyda'r bwriad o gyflawni'r rhain mewn partneriaeth â phartneriaid/rhanddeiliaid allweddol dros y blynyddoedd nesaf.


Roedd rhai o'r prosiectau allweddol a oedd yn digwydd rhwng 2019-2022 yn cynnwys:

- Datblygu Prif Gynllun Ardal Treftadaeth Cyfarthfa
- Datblygu gwaith sy'n gysylltiedig â menter Parc Rhanbarthol y Cymoedd
- Yr Orsaf Fysiau Ganolog newydd
- Datblygiadau Cam 2 ym Mharc Beicio Cymru
- Gwaith ataliol sy'n cael ei wneud ym Mharc Taf Bargod a ariennir drwy grant Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru

Nododd Prif Weithredwr y Cyngor fod nifer y diwrnodau ymwelwyr sy'n aros hefyd wedi cynyddu **13.6%**. Roedd hyn o ganlyniad i dwf stoc gwelyau, yn enwedig yn y sector nad yw'n cael gwasanaeth – llety o fath hostel, carafannau a gweryslla, 104 o leoedd gwely ychwanegol yng Nghanolfan Uwchgynhadledd Rock UK a nifer cynyddol o sefydliadau Airbnb™.

Ymhlith y siaradwyr eraill yn y gynhadledd roedd Ian Ritchie, yr oedd ei dîm o benseiri yn gweithio ar gynllunio Cynllun Cyfarthfa gyda'r nod o greu canolfan dreftadaeth ryngwladol. Amlinellodd cynrychiolwyr o Safle Trago Merthyr ail gam arfaethedig y datblygiadau yn y siop, gan gynnwys gorsaf lenwi petrol a chyfleusterau hamdden pellach; amlinellodd y Rheolwr Rhaglen y Cyngor ei gynigion ar gyfer datblygu 'Cynllun Rheoli Cyrchfannau' newydd a'i aliniad strategol â Chynllun Gweithredu newydd Croeso Cymru i Gymru, yn ogystal â phrosiectau yn y dyfodol sy'n cael eu datblygu gan y tîm Adfywio Cymunedol.

Mae llwyddiant twristiaeth Merthyr Tudful yn parhau'n gyflym, gyda'r sector yn cael effaith economaidd o £100m yn lleol – cynnydd o bron £30m o'i flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd o 35.4% o ganlyniad i gynnydd o 41% yn nifer yr ymwelwyr blynyddol o 1.27m i 1.79m, a nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a gefnogir gan dwristiaeth i fyny 31% o 917 i 1,200. Roedd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dydd yn deillio'n rhannol o gynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr yn y 17 atyniad i ymwelwyr ar draws y fwrdeistref sirol, ynghyd â 'ffactorau dylanwadol' gan gynnwys agor siop Trago Merthyr.



"Roedd twf parhaus y sector twristiaeth yn ystod y 10 mlynedd diwethaf wedi bod yn gyson. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i dyfu a hyrwyddo ein cynnig presennol a chynhyrchu pecynnau cydweithredol i annog pobl i aros yn hwy yn yr ardal, cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros a chryfhau'r economi leol hyd yn oed ymhellach. Rydym wedi neilltuo adnoddau yn ein tîm Datblygu Economaidd i gydweithio er mwyn datblygu rhaglen ddeinamig o flaenoriaethau cyrchfannau."

Y Cynghorydd Kevin O'Neill - Arweinydd y Cyngor

Astudiaeth achos: Gwobr y Faner Werdd – Enwebiad Cyflogeion y Flwyddyn


Cynllun Gwobr y Faner Werdd yw safon y DU ar gyfer parciau a mannau gwyrdd. Mae'r Cynllun yn cael ei gyflwyno yn y DU gan sefydliad Cadwch Brydain yn Daclus, Cadwch Ogledd Iwerddon yn Brydferth, Cadwch yr Alban yn Brydferth a Chadwch Gymru'n Daclus.

Yn 2019, enwebiad cyflogai'r flwyddyn ar gyfer Gwobr y Faner Werdd oedd Paul Haines. Roedd Paul yn gweithio ar safle Taf Bargod, ac yn cyfrannu at nifer o waith ar y safle gan gynnwys gosod a phlannu gwrych newydd ar gyfer cynefin yn y Parc. Roedd Paul hefyd yn sicrhau bod y Parc yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus bob dydd, ac yn cyflawni holl ddyletswyddau dyddiol y wardeiniaid, yn ogystal â chyflawni ei ddyletswyddau craidd o fod yn dirmon i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

O ymgymryd â dyletswyddau'r wardeiniaid cŵn, cyflwynodd Paul gynllun gwarchod cymdogaeth i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â baeddu cŵn yn y parc. Cafwyd rhywfaint o feirniadaeth gychwynnol o'r fenter gwyllo cymdogaeth gan rai cerddwyr cŵn yn yr ardal; fodd bynnag, roedd Paul yn gallu addysgu cerddwyr cŵn o fanteision cadw'r parc yn rhydd rhag baeddu cŵn, ac annog amgylchedd glân a thaclus.

Gweithiodd y fenter hon yn dda gyda llawer llai o gŵn yn baeddu yn y parc, bu'n rhaid gwagio biniau'n amlach a thrwy ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd, helpu i yrru'r fenter i gynnal amgylchedd glân a thaclus.

Am ei ymdrechion, cyflwynwyd Gwobr y Faner Werdd 2019 i Paul ar gyfer safle Parc Taf Bargod.



Astudiaeth achos: Gwobr y Faner Werdd – Enwebiad Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn

Cynllun Gwobr y Faner Werdd yw safon y DU ar gyfer parciau a mannau gwyrdd. Mae'r Cynllun yn cael ei gyflwyno yn y DU gan sefydliad Cadwch Brydain yn Daclus, Cadwch Ogledd Iwerddon yn Brydferth, Cadwch yr Alban yn Brydferth a Chadwch Gymru'n Daclus.

Yn 2019, enwebiad gwirfoddolwr ifanc y flwyddyn ar gyfer Gwobr y Faner Werdd oedd Daniel Lewis. Roedd Daniel yn gweithio ar safle Parc Taf Bargod a safle Parc Cyfarthfa yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Helpodd i blannu clychau'r gog a llawer o fylbiau blodau eraill yn y gwanwyn yn y ddau barc. Helpodd hefyd gyda gwaith cynnal a chadw cyffredinol fel trefnu casgliadau sbwriel, paentio dodrefn mewn parciau, tocio gwrychoedd, chwynnu gwelyau llwyni a phlannu coed. Yn ogystal, cynorthwyodd Daniel i adeiladu blychau adar ac ystumod ar gyfer y ddau barc. Mae nifer o weithgareddau eraill y mae Daniel yn ymwneud â'u cynnwys; chwynnu dyfrol, cynaeafu yn y llynnoedd ym Mharc Taf Bargod, gosod rhesi gwrychoedd naturiol a helpodd hefyd i blannu dros 500 o goed.


Dangosodd Daniel ymrwymiad gwirioneddol i'w waith, ac yn aml roedd yn beicio hyd at 7 milltir ym mhob tywydd o'i gartref i helpu gwirfoddolwyr ym Mharc Cyfarthfa. Ymhlith yr holl weithgareddau yr oedd Daniel yn ymgymryd â hwy, llwyddodd hefyd i reoli prosiect camera nos a oedd yn cynnwys ffotograffiaeth o fywyd gwylt nosol ar y ddau safle i bawb eu gwerthfawrogi. Helpodd i adnewyddu tudalennau Facebook yn llwyr ar gyfer Grwpiau Cyfeillion y Parciau Taf Bargod a Chyfarthfa.

Cynyddodd gwaith Daniel ar safleoedd ar-lein Cyfeillion y Parc broffil y ddau barc. Mae hyn yn dangos tystiolaeth o'r cynnydd o 200-300 o wylwyr ar bob tudalen we ers i Daniel ddiweddarau'r safleoedd. Mae wedi annog eraill i fynd allan yn fwy a mwynhau'r awyr agored drwy dynnu lluniau a'u postio i'w cyhoeddi ar y tudalennau gwe.

Mae'r gwaith y mae Daniel wedi'i wneud wedi cyfrannu at les y gymuned yn ogystal â lles amgylcheddol. Am ei ymdrechion, cyflwynwyd Gwobr y Faner Werdd 2019 i Daniel ar gyfer safle Parc Taf Bargod a safle Parc Cyfarthfa.



Tudalen 45 o 49



Crynodeb - Astudiaethau Achos


Beth rydym wedi'i ddysgu o edrych yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2019-2020?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwmo i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol ac mae'n defnyddio'r pum ffordd o weithio ym mhob un o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig i drigolion Merthyr Tudful.

Ar ôl cwblhau'r broses i lunio'r adroddiad hwn (sy'n edrych yn ôl ar 2019/20), rydym wedi gallu cyflwyno cipolwg ar yr hyn rydym wedi'i wneud.







Mae dadansoddiad o'n hastudiaethau achos wedi ein galluogi i nodi'r canlynol:

Cyfraniad i'r saith nod Llesiant cenedlaethol



	 Cymru lewyrchus	 Cymru gydnherth	 Cymru iachach	 Cymru sy'n fwy cyfartal	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
2018-2019	48%	15%	96%	93%	89%	44%	100%
2019-2020	100%	31%	100%	100%	94%	63%	100%
A Nodwyd Gwelliant?	Do	Do	Do	Do	Do	Do	Wedi'i gynnw


Cyfraniad at y pum ffordd o weithio a Mynd i'r Afael â Threchdu Tlodi

	 Hirdymor	 Atal	 Integredidio	 Cydweithio	 Cynnwys	 Trechdu Tlodi Gyda'n Gilydd
2018-2019	81%	74%	74%	96%	96%	-
2019-2020	100%	100%	94%	100%	100%	100%

A Nodwyd Gwelliant?	Do	Do	Do	Do	Do	Newydd ar gyfer 2019/20
----------------------------	-----------	-----------	-----------	-----------	-----------	--------------------------------

Mae hyn yn dangos sut rydym wedi newid yr hyn a wnawn a sut rydym yn gwneud hynny.

Mae'n galonogol gweld sut mae'r nodau cenedlaethol a phum ffordd o weithio yn cael eu mabwysiadu a'u hymgorffori yn ein gwaith.



CYSYLLTWCH Â NI

Dweud eich Dweud

Mae'r ddogfen hon yn adroddiad perfformiad cryno ar y meysydd blaenoriaeth o fewn y Cynllun Llesiant Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2019/2020.

Croesawn eich barn ar yr adroddiad hwn a gwaith y Cyngor. Gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Cyfeiriad

Tîm Perfformiad a Chraffu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ebost

wellbeing@merthyr.gov.uk



ATODIAD 1: Allwedd Perfformiad

Mae'r canlynol yn cynnwys gwybodaeth a fydd yn eich helpu i ddeall y dadansoddiad o'n cynnydd, yn enwedig mewn perthynas â'n meysydd blaenoriaeth.

Mae gan bob maes blaenoriaeth ganlyniad cysylltiedig, sy'n disgrifio'r manteision yr anelwn at eu cyflawni ar gyfer ein cymunedau. Nid yw canlyniad ynddo'i hun yn fesuradwy, felly er mwyn bod yn atebol, ac asesu a ydym yn cyflawni'r manteision a ddymunir, rydym yn defnyddio dangosyddion a gweithgarwch gwella. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fesur cyflawniad a deall ei effaith ar ganlyniadau.

Y Sefyllfa Bresennol

Gwerthusir ein dangosyddion yn seiliedig ar ein safle o'n cymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Diben defnyddio data cymharol yw ein galluogi i ddeall ein perfformiad cymharol ledled Cymru.

Yn ddiufyn, mae lliw statws pob mesur yn ymwneud â'n safle graddfa (yr ystod chwarterl) yng Nghymru. Mewn rhai achosion ni allwn gymharu'r mesur hwnnw ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Yn yr achosion hyn, caiff y dangosyddion eu cymharu â thargedau Awdurdodau Lleol.

Diffiniadau'r statws dangosydd

Diffiniad perfformiad	Graddfa	Statws
Mae'r sefyllfa bresennol yn rhagorol	1-6	Gwych
Mae'r sefyllfa bresennol yn dda	7-11	Da
Mae'r sefyllfa bresennol yn ddigonol	12-16	Digonol
Mae'r sefyllfa bresennol yn anfoddhaol	17-22	Anfoddhaol
Nid oes gwybodaeth gymaradwy neu dim ond data lleol	Amherthnasol	

Disgrifydd ar gyfer pob statws

RHAGOROL

Perfformiad ac ymarfer cryf iawn a pharhaus

DA

Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwelliant bach mewn rhai mannau

DIGONOL ac angen gwella

Mae cryfderau'n gorbwysu'r gwendidau, ond mae angen gwelliant mewn agweddau pwysig

ANFODDHAOL ac mae angen gwella ar frys

Mae gwendidau pwysig yn gorbwysu'r cryfderau